

❖ GAIR DUW A DDAETH I'N BYD

Ioan 1:1–5, 14

Darlleniad olaf y Gwasanaeth Naw Llith a Charol a ddarlledir bob Nadolig o Goleg King's, Caergrawnt, yw adnodau o bennod gyntaf efengyl Ioan. Dywedant mai Gair Duw a ddaeth i'n byd ni yn Iesu. Os mai Duw yn ein cyfarch yw'r Nadolig, pa baratoad gwell yn ystod yr Adfent nag ystyried ein gallu ni i wrando.

Mae'n syndod gwrandawyr mor wael ydym ni weithiau. Dyna neges drama N. F. Simpson *Resounding Tinkle*, a gyfieithiwyd gan T. James Jones (a'i chyhoeddi gan Wasg John Penri) dan y teitl *Holli Blew*. Pobl yn clywed pethau dwl, ac yn ymateb drwy ddweud pethau dwl eu hunain, nid yn unig am nad ydynt yn gwrandao ar ei gilydd, ond am nad ydynt yn gwrandao arnynt eu hunain chwaith.

Bûm yn aelod un tro o bwyllgor nad oedd neb arno'n cael siarad tan i'r siaradwr blaenorol godi llaw i ddweud ei fod wedi gorffen. Pe bai'r siaradwr nesaf yn ymateb i'r un blaenorol, rhaid oedd iddo'n gyntaf ddweud beth oedd e'n feddwl a ddywedodd hwnnw, a châi hwnnw gyfle i'w gywiro. Roedd y straen o ddal yn ôl yn drech na rhai, a'r camddeall o siaradwyr blaenorol yn fynych a sylweddol.

Mae ambell wrando'n rhwydd, gwrandao ar stori ddigrif, gwrandao ar rywbeth sy'n ein diddori, gwrandao ar rywbeth ymarferol y mae arnom angen ei wybod. Nid yw'r gwrandao yna'n para'n hir, nid yw'n hawlio llawer oddi wrthym, ac nid yw'n ein herio. Ar y llaw arall mae yna wrando sy'n golygu ymdrech a disgyblaeth, ac os nad ymarferwn y math yna ar wrando, bydd ein gallu i wrando yn crebachu.

Anhawster i wrando weithiau yw ein hoffter o syniad neu fwriad o'n heiddo ni ein hunain. Ar raglen deledu, *Y Gwir Am Gelwydd*, dywedwyd fod J. F. Kennedy wedi gofyn iddo'i hun wedi trychineb The Bay of Pigs sut y gallai fod wedi ymgymryd â menter mor anghyfrifol, a digon o wybodaeth ganddo ymlaen llaw yn dweud yn hollol glir nad oedd llwyddiant yn bosibl. Roedd wedi bod mor daer i gredu y gallai gyrraedd ei nod fel nad oedd wedi bod yn rhydd i wrando ar ddim arall.

Gall gwrandao olygu hunanymwadu, yn yr ystyr o geisio gweld sefyllfa drwy lygaid rhywun arall. Gall cydnabod bod ffordd arall i weld pethau heblaw ein ffordd ni fod yn anodd i rai ohonom. Ar ben hynny, efallai y bydd yr hyn a glywn yn wasgfa arnom i newid meddwl, a does dim gwybod ble y gallai hynny arwain!

Anodd i'w deall fydd rhai pethau a glywn wrth gwrs. Rwy'n cofio dweud wrth fy ngwraig un tro, 'Rwy'n gwybod eich bod chi'n ceisio dweud rhywbeth sy'n bwysig i chi, ac rwy'n clywed y geiriau, ond dwy i ddim yn deall. Allwn ni ei adael tan yfory a rhoi cynnig arni eto?'

Hyd yn oed pan fyddwn yn gwrandao'n dda ac yn deall, gall fod yn anodd adnabod yr hyn sy'n wir. Hyrddir negeseuon atom, ar y sgrîn fach, ar bosteri, wedi eu hanelu at ein hisymwybod, er mwyn osgoi ein cyneddfau beirniadol.

Mae'r ddwy ferch rwy'n dad iddynt yn gerddorol. Eiddigeddaf wrth eu gallu i wrando ar gerddorfa a dweud pethau fel 'Gwrandewch ar y baswn yna'n y cefndir.' Gobeithio y gallant wahaniaethu hefyd rhwng yr holl negeseuau y mae'r byd yn ceisio'u gwasgu arnynt. Golyga adnabod y natur ddynol, golyga fesur iach o siniciaeth, a golyga adnabod tinc y gwirionedd.

A beth am bethau anodd i'w deall a ddywedir wrthym gan rywun sy'n byw'n wahanol i ni, neu rywun o genhedlaeth arall, neu rywun o ffydd neu wlad neu ddiwylliant neu gyfnod arall?

Daw'r efengyl atom o gyfnod arall. Ond dywed yr efengyl am realiti a oedd yn ddieithr i'w gyfnod ei hun ac sy'n ddieithr ym mhob cyfnod, realiti y mae popeth ynddo wedi ei droi wyneb i waered, fel y canodd Mair yn y Magnificat – 'tynnodd dywysogion oddi ar eu gorseddau, a dyrchafodd y rhai distadl' (Luc 1:46–55).

Mae'n gallu ni i wrando yn aruthrol bwysig mewn cymaint o gylchoedd. Y gallu hwn yw'n drws ni i eangfrydedd a dyfnder, ac mae'n fesur o'n gallu i fod yn ddoeth ac i gymdeithasu. Ond mae'r Adfent, uwchlaw popeth, yn dymor i sylweddoli, pa mor dda bynnag y bydd Duw'n cyfathrebu â ni drwy'r baban Iesu, bydd yr hyn a glywn yn dibynnu ar ein gallu i wrando.

Vivian Jones